NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Thalamotomi uwchsain penodol sydd wedi'i arwain gan MRI ar gyfer trin cryndod cymedrol i ddifrifol sy'n gysylltiedig â Parkinson

18 Rhagfyr 2024

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon, Mae hyn am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am yr ymchwil.

Clefyd sy'n niweidio'r ymennydd ac sy'n gwaethygu dros amser yw clefyd Parkinson. Mae'n achosi symptomau fel cryndod. Mae'r driniaeth hon yn defnyddio uwchsain pwerus iawn i ddinistrio meinwe mewn ardal o'r ymennydd a elwir yn thalamws (thalamotomi), sef ardal o'r ymennydd sy'n gysylltiedig â chryndod. Defnyddir sganiwr MRI i arwain yr uwchsain er mwyn iddo ganolbwyntio ar yr ardal gywir. Y nod hyn yw lleihau'r cryndod.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?

- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall tudalen we y GIG ar glefyd Parkinson fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall Parkinson's UK, 0808 800 0303, roi cyngor a chymorth i chi.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio beth mae dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil yn ei olygu.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-9005-4